**LC413**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy’r Traed a’r Genau) (Cymru) (Rhif 2) 2002**

Mae’r rheoliadau hyn yn diddymu ac yn disodli Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy’r Traed a’r Genau) (Cymru) 2002 (O.S. 2002/8) (Cy.1) wrth weithredu Penderfyniad y Comisiwn 2002/48/EC.

Maent yn hepgor yr Atodlen 2 flaenorol a oedd yn rhestru ardalaoedd sirol yng Nghymru, Lloegr a’r Alban y gellid mewnforio anifeiliaid iddynt ac yr oedd yn rhaid i anifeiliaid neu gynhyrchion anifeiliaid ddeillio ohonynt er mwyn bod yn gymwys i’w hanfon neu eu hallforio. Mae’r darpariaethau perthnasol yn awr yn gymwys i bob rhan o Gymru, Lloegr a’r Alban.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

Tynnwyd sylw’r cyfreithiwr drafftio at rai mân bwyntiau sy’n ymwneud â’r nodyn esboniadol.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

12 Chwefror 2002